Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

South Wales Fire and Rescue Service

Swyddog Gweinyddol Yswiriant
GRADD 7
CYFLOG: o £23,953 i £24,920 pro rata
Dros Dro (12 mis)
15 awr yr wythnos
Rhif y Swydd: NU133

Cododd swydd Swyddog Gweinyddol Yswiriant Dros Dro (12 mis) o fewn yr Adran Gwasanaeth Materion Cyfreithiol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac ar sail rhan amser (15 awr yr wythnos). Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd i'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am weinyddiaeth ddyddiol a bod yn brif gyswllt am bob mater sy'n ymwneud ag yswiriant, yn fewnol ac allanol. Mae'r rôl yn cynnwys derbyn, dosbarthu a chofnodi manylion hawliadau am ddigwyddiadau atebolrwydd (y cyhoedd a chyflogwyr) yn unol â gofynion polisi. Bydd gan y rôl gyfrifoldeb am baratoi adroddiadau a chyflwyno ystadegau, am hawliadau atebolrwydd a cherbydau, i grwpiau a phwyllgorau mewnol.

- Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o'n gwefan www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personél@decymru-tan.gov.uk. **Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais yw 8fed o Orffennaf am 12 o'r gloch, hanner dydd.**

Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG